Galwad pellach am safleoedd ymgeisiol – Mwynau a Gwastraff / Llety Sipsiwn a Theithwyr
Yn dilyn y galwad gwreiddiol am safleoedd ymgeisiol, mae wedi dod yn amlwg nad oes digon o safleoedd yn cael eu hyrwyddo i ddatblygu defnyddiau mwynau a gwastraff ac ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr.

Fel rhan o'r gwaith paratoi parhaus ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd, roedd y Cyngor yn cadw'r hawl i ailagor y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol am chwe wythnos, er mwyn goresgyn unrhyw ddiffyg. Felly mae'r Cyngor yn gwahodd pob gweithredwr Mwynau a Gwastraff, perchennog tir, datblygwr, asiant ac aelod o'r cyhoedd i argymell safleoedd ymgeisiol addas pellach, ar gyfer defnyddiau mwynau a gwastraff posibl, a datblygu llety Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gwahodd safleoedd ymgeisiol ar gyfer defnyddiau eraill e.e. tai, diwydiant ac ati. Mae'r galwad am ddefnyddiau mwynau a gwastraff a llety Sipsiwn a Theithwyr.

Dylai bob cyflwyniad ddod gyda Ffurflen Cyflwyno Safle Ymgeisiol, sydd ar gael ar wefan y Cyngor, a chynllun cyfredol o'r safle, â'r safle gydag ymyl lliw coch, ac unrhyw dir cyfagos o fewn yr un berchnogaeth mewn lliw glas. Llenwch a dychwelwch y ffurflen gyflwyno erbyn 5pm ddydd Gwener 11 Awst 2017 at:

Andrew Farrow
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
CH7 6NF

E-bost: developmentplans@flintshire.gov.uk
Llinell gymorth CDLl: 01352 703213